

# Archwilio
# Enwau Adeiladau

## Sut mae adeiladau'n cael eu henwau?




- Mae adeiladau a blociau o swyddfeydd yn aml yn cael eu henwi gan y bobl dalodd iddyn nhw gael eu hadeiladu. Mae ysgolion yn aml yn cael eu henwi ar ôl seintiau.

- Gall adeiladau hŷn ddangos y flwyddyn cawson nhw'u hadeiladu.

- Pan mae perchnogion yn symud i mewn i dŷ, efallai eu bod nhw'n rhoi enw newydd ar y tŷ. Mae cartrefi weithiau'n cael eu henwi ar ôl lle oedd yn arbennig i'r perchennog.


- Mae enwau ffermydd a thai hŷn yn aml yn disgrifio'u lleoliad (ee 'Fferm Cae Isaf' neu 'Bwthyn y Coed').

- Weithiau mae adeilad arbennig yn cael ei ailenwi i anrhydeddu digwyddiad enwog neu efallai berson enwog o'r ardal.



## Sut mae dysgu rhagor am enwau adeiladau?

- Dechreuwch trwy feddwl am enw'r adeilad. Ydy e wedi cael ei enwi ar ôl person neu ddigwyddiad (ee 'Tŵr Trafalgar') neu a ydy e'n enw rhywbeth daearyddol sy'n disgrifio'i safle?



- Os oes enw daearyddol ganddo, ewch i nôl map o'r ardal a chwilio am y peth mae wedi ei enwi ar ei ôl. Fydd coed unigol ddim yn cael eu dangos, ond os mai 'Fferm Dan y Coed' ydy'r enw, efallai gallwch ddod o hyd i'r goedwig ar fryn uwch ei phen sy'n egluro'i henw.

- Os ydy'r adeilad wedi ei enwi ar ôl rhywun, ceisiwch ddefnyddio llyfrau hanes neu'r rhyngrwyd* i weld beth allwch chi ddysgu am y person neu'r digwyddiad. Pa gysylltiad sydd yna gyda'r ardal lle mae'r adeilad?

- Cysylltwch ag Adran Gynllunio eich cyngor lleol a gofyn iddyn nhw am yr enw.

* Peidiwch â defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio heb ddweud wrth oedolyn beth rydych chi'n mynd i'w wneud.

© BBC




Yng Nghaerdydd mae yna nifer o flociau newydd o fflatiau wedi eu henwi ar ôl paffwyr enwog o'r ddinas.

Mae 'Driscoll Court' wedi ei enwi ar ôl Pencampwr Pwysau Plu Prydain, yr Ymerodraeth ac Ewrop, Jim Driscoll fu farw yn 1925.






Mae'r 'Bwthyn Tramffordd' wedi ei enwi ar ôl y tram sy'n rhedeg heibio'i ddrws ffrynt.




Roedd yr adeilad hwn wedi ei enwi ar ôl ymweliad i'r dref gan Frenhines România.




Dyma arwydd anferth mewn teils gwyn ar adeilad sy'n wynebu'r orsaf rheilffordd.

Yn y llyfrgell leol roedd yna arweinlyfr i'r dref oedd yn dangos hysbyseb ar gyfer y siop oedd yn arfer â bod yn yr adeilad.







Edrychwch am blaciau sy'n gallu dweud wrthoch chi am adeiladau.

© BBC